# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU**
**7 yh nos Fawrth Ebrill 30 2024**

**Presennol :- Cynghorwyr :-** Aled Griffith ( Cadeirydd), Alwyn Gruffydd ( Is-Gadeirydd), Gwilym Jones, Carol Hayes, Michael Roberts, John Gwynedd Roberts, Dr Melfyn Edwards, Marian Roberts (Clerc)

**1.** **Ymddiheuriadau :-** Cyng Connor Westwood

**2.** **Llwybrau**

- Wedi cadarnhau cytundeb Gwynedd 2024-25 **,** am fynd am gytundeb 3 blynedd y tro nesaf gan fod y cyn-Clerc wedi derbyn pris ffafriol iawn eleni.
- Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi dechrau ar y gwaith o glirio'r llwybr cyhoeddus rhwng Capel Peniel a'r Cyt.

**3.** **Cae Bodawen**

- G.L.Jones wedi ffonio – wedi cael cais am bris offer chwarae a giât newydd gan gwmni Murphy ar ran Nat. Grid.
- 2 sgriw newydd wedi eu rhoi ar spring y giât.
- Wedi trafod lleoliadau posib' i symud yr offer chwarae tra bydd y gwaith cloddio yn mynd yn ei flaen.
- **Penderfynwyd -** aros i dderbyn cynllun mwy manwl gan National Grid am union gyflwr y cae pan fyddant yn gweithio arno gan ystyried oblygiadau diogelwch wrth feddwl am osod yr offer chwarae mewn rhan arall o Gae Bodawen.

**4.** **Bryn Coffa**

Trafodwyd cais a ddaeth i law yn gofyn am welliannau posib' er mwyn diogelu mynediad i'r anabl yn ogystal â gwelliannau aesthetig i'r safle. Cytunwyd fod y safle yn un anodd iawn i gyrraedd ato oherwydd y tirwedd creigiog a derbyniwyd fod dyletswydd ar y Cyngor Tref i sicrhau mynediad i bawb.

**Penderfynwyd :-**

- Cael pris am osod canllaw drwy ganol y grisiau ar y gwaelod
- Cael pris am osod canllaw ar y 3 gris ar ben Bryn Coffa
- Cael pris am osod llif-oleuadau ar y gof-golofn
- Gwirio'r QR code wrth y grisiau gwaelod i weld faint o wybodaeth sydd arno

yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

**5.** **Cae Pawb**

Nododd y Clerc fod cryn newidiadau wedi digwydd i denantiaeth Cae Pawb gyda "turnover" da o denantiaid newydd yn llenwi plotiau sy'n dod yn wag. Clywyd bod 7 ar y rhestr aros bresennol.

Mynegwyd pryder fod cwmni teledu yn ffilmio rhaglen Garddio a Mwy yno yn aml ac nad ydynt - o ran cwrteisi - yn hysbysu'r Cyngor Tref na'r tenantiaid am eu hymweliadau. Golyga hyn broblemau parcio i'r tenantiaid gan fod lle parcio yn brin iawn yno yn enwedig pan ychwanegir ceir y criw ffilmio. Tra'n cytuno bod y Cyngor Tref yn ymfalchïo yn llwyddiant seren y rhaglen ac yn falch bod Cae Pawb yn cael sylw cytunwyd y dylai'r Cyngor Tref a Chymdeithas Cae Pawb gael eu cydnabod.

**Penderfynwyd –** gofyn i'r cwmni teledu :-

- gydnabod caniatâd y Cyngor Tref a'r tenantiaid i ffilmio ar y 'credits' ar ddiwedd y rhaglen
- hysbysu'r Cyngor Tref a Chymdeithas Cae Pawb bob tro maent yn bwriadu ffilmio yno
- roi cyfraniad ariannol i Gymdeithas Cae Pawb am gael defnyddio'r safle

yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.

- Trefnwyd dyddiad archwiliad mis Mai ar nos Fercher Mai 15 am 18.00.

**6. Llochesi Bws**

Nodwyd bod lloches bws newydd wedi cael ei gosod yn Nhremadog gan Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y gwasanaeth newydd T22 a mynegwyd siom fod y gwasanaeth T2 o Aberystwyth i Fangor wedi newid ac yn troi i gyfeiriad Cricieth gan anwybyddu Tremadog. Nodwyd hefyd nad oedd y Cynghorwyr yn ymwybodol o pa lochesi sy'n eiddo i'r Cyngor Tref. Nododd y Clerc fod rhestr ffotograffig yn bodoli ac wedi ei rannu gyda Criccieth Cleaning sydd yn gofalu am eu glanhau.

**Penderfynwyd :-**

- Cynnwys mater bysiau T2 a T22 ar raglen cyfarfod mis Mehefin.
- Y Clerc i rannu'r rhestr llochesi gydag aelodau'r Is-Bwyllgor.

Nododd y Clerc fod eisteddle gyda planter blodau ynddo wedi cael ei osod ger y lloches bws wrth y stesion a'i bod wedi gofyn i Gardencraft i'w lenwi. Clywyd fel yr oedd y planter wrth ymyl capel Salem wedi cael ei droi a'i wagio yn ddiweddar.

**Penderfynwyd :-**

- Y Clerc i holi Gardencraft pa bryd maent am lenwi'r tybiau ac os oedd modd symud un Capel Salem i leoliad wrth ymyl y parc.

**7. Cerflun Mr. Madocks**

Roedd y Cynghorwyr yn bryderus am yr hollt sydd yn y cerflun – mae hwn i'w weld yn gwaethygu. Soniwyd am y posibilrwydd o roi resin i lenwi'r hollt ac i arbed y cerflun. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o drefnu hyn.
Clywyd nad oedd Ffion Gwyn ar gael i ddechrau'r gwaith ar y bwrdd gwybodaeth am Madocks tan haf eleni.

**8. Syniadau i ddatblygu'r dref -** diweddariad ar gynllun Savills

Mae dogfen swmpus Cyngor Gwynedd Cynllun Creu Lleoedd wedi cael ei rhannu eisoes gyda'r Cynghorwyr ers Chwefror 26. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 13eg – lleoliad i'w gadarnhau. Holwyd os oedd ymholiadau wedi eu gwneud am i'r Cyngor Tref gymryd drosodd y cyfrifoldeb dros y Parc – nid oedd dim wedi ei wneud ers cyfarfod mis Ionawr. Nodwyd fod y Parc yn dod o dan astudiaeth Savills ac yn un o'r 5 safle sy'n rhan o'r Cynllun Creu Lleoedd.
**Penderfynwyd :-** cynnwys trafodaeth am y Parc yng nghyfarfod mis Mehefin.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.45.
Marian Roberts (Clerc)
1.5.24